



Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Testun

Mai 2019

Papur Testun 7: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print mawr a gallwn ei chyfieithu i ieithoedd eraill, cysylltwch â y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Pwrpas y Papur Testun hwn.....	4
3. Prif Newidiadau i Ddeddfwriaeth a Pholisi	4
3.1 Newidiadau Ewropeaidd a Chenedlaethol.....	4
3.2 Yr Effeithiau ar Lefel Rhanbarthol	8
3.3 Polisiâu, Strategaethau a Thystiolaeth Leol	8
3.4 Casgliad – Y Prif Newidiadau i Ddeddfwriaeth a Pholisi.....	9
4. Polisi'r CDLI – Y sefyllfa bresennol.....	9
5. Canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol ar y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu.....	9
6. Sail Dystiolaeth CDLI wedi'i Ddiweddarau	11
7. Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.....	11
8. Polisiâu a Chynigion Defnydd Tir Posibl.....	12
9. Angen Sail Dystiolaeth bellach	13
10. Casgliad.....	13
Atodiad 1 – Polisiâu CDLI presennol.....	14

1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn bennaf oll yn gynllun defnydd tir sy'n nodi'r cyfleoedd i ddatblygu ar safle penodol mewn ymateb i anghenion y gymuned am fwy o dai, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae hefyd yn ceisio cadw, diogelu a gwella, lle bo'n briodol, yr agweddau hynny o'r amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n bwysig i ddiffinio ansawdd a sensitifrwydd y lleoedd yr ydym yn eu gwerthfawrogi, mwynhau, symud drwyddynt ac yn byw ynddynt. Prif nod y CDLI fydd darparu datblygu cynaliadwy.

Mae'r CDLI yn fodd i'r Cyngor ddiffinio ei brif flaenoriaethau twf a datblygiad a bydd yn darparu'r fframwaith parhaus o bolisiâu i arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

2. Pwrpas y Papur Testun hwn

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun a luniwyd i lywio cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (CDLIN). Y nod yw dehongli'r dystiolaeth a'r canllawiau perthnasol mewn perthynas â'r testun penodol a nodi'r prif faterion y bydd angen ymdrin â nhw yn y Cynllun yn ogystal â chymau polisi posibl i'w cynnwys yn y Cynllun. Mae pob papur testun wedi eu llunio o dystiolaeth fanwl yn deillio o Bapurau Cefndir CDLI (dogfennau technegol sy'n ffurfio sail y dystiolaeth ar gyfer y CDLIN.) Mae papurau testun wedi'u cynllunio i ymdrin â phrif feysydd pwnc yr ymdrinnir â hwy ar hyn o bryd yn y CDLI mabwysiedig ac maent yn crynhoi data technegol a gaiff ei gynnwys o fewn y Papurau Cefndir i wneud cyflwyno'r data yn fwy hygyrch i ddarllenwyr. Mae papurau testun yn sefydlu'r sefyllfa sylfaenol ac yn nodi'r prif faterion sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol y bydd angen mynd i'r afael â nhw yn y CDLIN.

Bwriad y Papurau Testun yw rhoi cyfle cynnar i randdeiliaid a'r cyhoedd i roi mewnbwn i'r Cynllun. Mae'r papur testun hwn yn cynnwys y materion allweddol yn ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol.


3. Prif Newidiadau i Ddeddfwriaeth a Pholisi

3.1 Newidiadau Ewropeaidd a Chenedlaethol

3.1.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i gyrrff cyhoeddus fel cyngorau feddwl mwy am y tymor hir, cydweithio'n well â sefydliadau eraill a chymunedau i atal problemau a defnyddio dull mwy cysylltiol.

Mae gan y Ddeddf saith o amcanion yn ymwneud â lles sef:



Rhaid i bob corff cyhoeddus a gaiff eu crybwyll yn y Ddeddf Llesiant weithredu datblygu cynaliadwy.

“Mae'n rhaid i'r cam mae corff cyhoeddus yn ei gymryd i gyflawni datblygu cynaliadwy gynnwys:

- a. gosod a chyhoeddi amcanion (“amcanion lles”) sydd wedi'u llunio i wella ei gyfraniad i gyflawni pob un o'r amcanion lles, a
- b. cymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni swyddogaethau) i fodloni'r amcanion hynny.”

(ffynhonnell – Rhan 2 ‘Gwella Llesiant’ adran 3 ‘dyletswydd llesiant ar gyfrff cyhoeddus’ paragraffau (1) a (2).)

Yn y Ddeddf mae “datblygu cynaliadwy” yn golygu'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n ceisio cyrraedd yr amcanion lles.

Mae'r Ddeddf yn nodi pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal. Bydd pob un o'r rhain yn cael eu cynnwys ym mhroses y CDLIN.

3.1.3 Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

Mae rhannau amrywiol o ddeddfwriaeth a chanllawiau yn ymwneud â rheoli cynllunio ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Yn nhermau deddfwriaeth gynradd, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979. Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn gosod y gofynion cyfreithiol ar gyfer rheoli datblygiad ac addasiadau sy'n effeithio ar adeiladau, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu rhestru neu sydd mewn ardaloedd cadwraeth, a'r fframwaith a ddefnyddir i gynnal rheolaeth.

3.1.4 Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24

Gellir canfod y polisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru, Pennod 6: Lleoedd Unigryw a Naturiol. Amcanion Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yw i:

- diogelu, gwarchod, hybu a gwella'r amgylchedd hanesyddol sy'n adnodd cyfyngedig ac anadnewyddadwy a sy'n rhan hanfodol ac annatod o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Cymru;
- cydnabod ei gyfraniad i hyfywedd economaidd a diwylliant, balchder bro, hynodrwydd lleol ac ansawdd bywyd Cymreig, a'i bwysigrwydd fel adnodd i'w gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
- seilio penderfyniadau ar yr effaith y gall y cynnig ei gael ar asedau hanesyddol Cymru;

ac yn benodol:

- diogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru;
- diogelu gweddillion archeolegol, er eu lles eu hunain ac er mwyn eu rôl mewn addysg, hamdden a'r economi;
- diogelu nodweddion adeiladau hanesyddol a rheoli newid fel bod eu lles hanesyddol ac archeolegol arbennig yn cael ei gadw;
- diogelu neu hybu nodweddion neu ymddangosiad ardaloedd cadwraeth, tra ar yr un pryd eu helpu i barhau yn fywiog a ffyniannus;
- diogelu diddordeb arbennig safleoedd ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru; ac ardaloedd cadwraeth ar y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru.

Hefyd mae gofyniad i gasglu a gwneud defnydd o'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol.

Mae PCC yn egluro y gall CDLI gynnwys polisiâu sy'n benodol yn lleol ar:

- Safle Treftadaeth y Byd
- Gweddillion archeolegol
- Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth
- Asedau Hanesyddol o Bwysigrwydd Lleol Arbennig

Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol yn darparu canllawiau manwl pellach ar sut i weithredu'r polisiâu o fewn PCC pennod 6. Mae'r TAN yn disodli Cylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig:

60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg

61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

1/98 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae TAN 24 yn atgyfnerthu egwyddorion Cadwraeth Cadw ac mae yna chwech ohonynt:

1. Bydd asedau hanesyddol yn cael eu rheoli i gynnal eu gwerthoedd.
2. Mae deall pwysigrwydd asedau hanesyddol yn hollbwysig.
3. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir.
4. Bydd pawb yn gallu cymryd rhan mewn cynnal yr amgylchedd hanesyddol
5. Rhaid i benderfyniadau am newid fod yn rhesymol, tryloyw a chyson
6. Mae dogfennu a dysgu o benderfyniadau'n hanfodol.

3.1.5 Egwyddorion Cadwraeth a Chanllaw Arfer Gorau (Cadw)

Fel y crybwyllwyd yn gynharach, cyfeirir at yr Egwyddorion Cadwraeth a gyhoeddwyd gan Cadw yn 2011 nawr yn PCC a Nodyn Cyngor Technegol 24, sy'n rhoi mwy o bwys i'r ddogfen hon yn nhermau cynllunio. Hefyd mae Cadw yn y broses o gynhyrchu nifer o ddogfennau technegol i gynorthwyo gyda'r broses o wneud penderfyniadau'n lleol, mae'r rhain fel a ganlyn:

- Asesiad o Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru
- Rheoli Newid yn Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru
- Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru
- Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru
- Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru
- Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru
- Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru
- Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru
- Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru

3.1.6 Gwerth Treftadaeth yng Nghymru (2016)

Mae papur wedi ei gyhoeddi gan y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol sy'n mesur effaith a dylanwad y sector treftadaeth yng Nghymru. Amcangyfrifir fod y sector treftadaeth yn rhoi £963m i economi Cymru bob blwyddyn gan gefnogi dros 40,500 o swyddi. Hefyd mae nifer o bobl yng Nghymru yn cael eu cyflogi mewn swyddi sy'n bodoli yn anuniongyrchol i'r sector treftadaeth - er enghraifft y nifer o bobl sy'n gweithio mewn gwestai a thai bwyta sy'n darparu ar gyfer ymwelwyr a ddaw i Gymru a sy'n ymweld yn bennaf i gael y profiad treftadaeth. Mae'r papur yn nodi hefyd fod 43% o swyddi'r diwydiant adeiladu yng Nghymru (26,340 o bobl) yn ymwneud ag atgyweirio ar gyfer cadwraeth a chynnal a chadw adeiladau traddodiadol a adeiladwyd cyn 1919. Mae'r papur hwn yn rhoi gwerth treftadaeth mewn termau mesuradwy ac yn dangos pa mor werthfawr yw'r amgylchedd hanesyddol i sectorau'r economi, twristiaeth ac addysg.

3.2 Yr Effeithiau ar Lefel Rhanbarthol

Mae Ardal Gadwraeth Conwy yn cynnwys y castell o'r drydedd ganrif ar ddeg a muriau'r dref sydd wedi eu dynodi yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd.

Mae Cynllun Rheoli wedi ei baratoi gan Cadw sy'n cynnwys parth clustogi wedi'i ddiffinio sydd wedi ei fwriadu i amddiffyn lleoliad Safle Treftadaeth y Byd Conwy. Mae'r cynllun rheoli hwn ar hyn o bryd yn ffurfio'r Canllawiau Cynllunio Atodol (a fabwysiadwyd yn Ebrill 2018), fodd bynnag mae'r parth clustogi ar Fap y Cynigion yn parhau i adlewyrchu'r parth clustogi 'drafft' a luniwyd nifer o flynyddoedd yn ôl. Y bwriad yw y bydd Map Cynigion y CDLI Newydd yn cynnwys y ffiniau diwygiedig ar gyfer y parth clustogi fel y caiff ei ddangos yn y Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd yn Ebrill 2018.

3.3 Polisiau, Strategaethau a Thystiolaeth Leol

3.3.1 Cynllun Corfforaethol Conwy 2017-2022

Pwrpas y Cynllun Corfforaethol yw cyflwyno Blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y pum mlynedd o 2017 i 2022. Y blaenoriaethau yw'r meysydd mae'r Cyngor eisiau rhoi sylw arbennig iddynt er mwyn cefnogi cyflawni canlyniadau'r dinasyddion.

Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Mae pobl wedi'u haddysgu ac yn fedrus
- Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- Mae gan bobl fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywydau.
- Mae pobl yn iach ac yn egnïol.
- Mae pobl yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus
- Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd
- Mae pobl yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Mae pobl yng Nghonwy'n cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

Ar draws yr holl feysydd gwaith mae'r Cyngor wedi ymrwmo i sicrhau fod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu cenedlaethau'r dyfodol, gan ymdrechu i wneud y penderfyniadau gorau yng ngoleuni cyfyngiadau ariannol. Hefyd mae'r Cynllun Corfforaethol yn ymrwmo i ystyried effaith y polisiau ar gymunedau gwledig, y rhai sy'n cael eu hamddiffyn gan y ddeddfwriaeth Gydraddoldeb a'r bobl sy'n byw mewn tloidi. Bydd y Cyngor hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn magu hyder i fod yn flaengar. Mae harneisio potensial technoleg i wella perfformiad, prosesau busnes ac effeithlonrwydd yn flaenoriaeth strategol hyd at 2022.

3.4 **Casgliad – Y Prif Newidiadau i Ddeddfwriaeth a Pholisi**

I gloi, mae newid wedi bod yn neddfwriaeth a pholisi cenedlaethol yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru ers mabwysiadu'r CDLI yn 2013. Er enghraifft mae yna ofyniad i wneud defnydd o'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol, ymgymryd ag Asesiadau o Effaith ar Dreftadaeth ar gyfer datblygiadau lle mae caniatâd Ardal Gadwraeth neu adeilad rhestredig yn ofynnol a llunio datganiadau i gyd-fynd â cheisiadau o'r fath. Gall hyn fod yn weithredol hefyd pan fo cynigion datblygu yn cael effaith ar leoliad ased treftadaeth. Mae Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig neu Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol fel y cyfeirir atynt yn bresennol yn CDLI Conwy yn faes arall sy'n newydd i'r canllawiau cenedlaethol, fel y mae polisi seiliedig ar feini prawf ar Alluogi Datblygiad. Bydd yr ychwanegiadau diweddaraf hyn i'r polisi cenedlaethol yn effeithio ar beth a gaiff eu cynnwys yn y CDLI ar lefel lleol, gan nad oes angen ailadrodd canllawiau cenedlaethol oni bai fod angen dull o weithredu nodedig yn lleol. Trafodir hyn mewn mwy o fanylion yn ddiweddarach yn y papur testun hwn.

4. **Polisi'r CDLI – Y sefyllfa bresennol**

Cafodd y CDLI ei fabwysiadu yn Hydref 2013 a hyd yma mae wedi bod drwy'r broses Monitro Blynyddol bedair gwaith. Mae rhan nesaf y papur testun hwn yn ymdrin â'r prif gasgliadau sydd wedi codi o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol. Gellir canfod y polisiâu presennol yn ymwneud â Threftadaeth Ddiwylliannol (yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol) yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

5. **Canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol ar y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu**

Mae'r newidiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol ar dreftadaeth yn golygu fod rhai polisiâu CDLI, yn arbennig CTH/2 – Datblygiad sy'n Effeithio ar Asedau Treftadaeth a CTH/4 Galluogi Datblygiad yn gofyn am adolygiad i sicrhau eu bod yn unol â'r polisi cenedlaethol. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer polisi CTH/3 hefyd yn gofyn am adolygiad i'w wneud yn fwy syml.

Mae Tabl 1 isod wedi ei gymryd o'r Adroddiad Adolygu CDLI ac mae'n awgrymu pa bolisiâu Treftadaeth Ddiwylliannol CDLI lle mae angen adolygiad sylweddol neu ysgafn.

Tabl 1: Polisiâu Treftadaeth Ddiwylliannol lle mae angen adolygiad (ffynhonnell: Adroddiad Adolygu CDLI.)

Polisi	Sylw
CTH/1 – Treftadaeth Ddiwylliannol	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
CTH/2 – Datblygu Sy'n Effeithio ar Asedau Treftadol	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
CTH/3 – Adeiladau ac Adeileddau o Bwysigrwydd Lleol	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
CTH/4 – Hwyluso Datblygu	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
CTH/5 – Yr Iaith Gymraeg	Diwygio i ystyried y sail dystiolaeth ddiweddaraf a chanllawiau cenedlaethol wedi'u diweddarau

Yn dilyn adolygiad dilynol o'r sail dystiolaeth, mae adran 8 y papur hwn yn mynd i'r afael â'r tabl uchod eto ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â sut y dylid newid pob polisi i adlewyrchu sail dystiolaeth wedi'i ddiweddarau i fynd â hynny ymlaen yn y CDLI newydd. Noder yr ymdrinnir â pholisi CTH/5 – Yr Iaith Gymraeg mewn papur testun ar wahân.

Perfformiad Polisi

Mae'r polisiâu wedi perfformio'n dda yn gyffredinol. Mae dau Ganllaw Cynllunio Atodol (Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Llanelian a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Canol Tref Bae Colwyn) wedi eu mabwysiadu yn ystod amserlen Adroddiad Monitro Blynyddol 2017/2018.

Mae'r polisiâu gan fwyaf wedi bod ar wyrdd yn ystod pob cyfnod monitro. Fodd bynnag ni chyflawnwyd targed dangosydd MI/078 yn ymwneud â'r 'nifer o geisiadau a gymeradwywyd sy'n effeithio'n andwyol ar safleoedd archeolegol hysbys a safleoedd nad ydynt wedi cofrestru sydd o bwysigrwydd archeolegol' yn ystod 2017/2018 o ganlyniad i gymeradwyo un cais a oedd wedi ei wrthwynebu gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys. Fodd bynnag gan ei fod yn benderfyniad a wnaed yn groes i argymhelliad swyddog, ystyrir nad oedd hyn yn ganlyniad i wendid yn y polisi.

Hefyd fe aeth dangosydd MI/080 i oren yn 2018 o ganlyniad i golli dau adeilad/strwythur rhestredig (marcwyr ffordd/pyst milltir.) Damweiniau oedd yn gyfrifol am y digwyddiadau hyn ac felly nid oeddent yn ganlyniad i wendid yn y polisi.

Mae wyth o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gyd sy'n cefnogi'r polisiâu Treftadaeth Ddiwylliannol yn uniongyrchol wedi eu cytuno ers mabwysiadu'r CDLI.

Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd:

CDLI08- Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol (a fabwysiadwyd ym mis Chwefror 2014)

CDLI14- Ardaloedd Cadwraeth (a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2015)

CDLI15 - Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Llandudno (a fabwysiadwyd ym Mawrth 2015)

CDLI16 Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Conwy (a fabwysiadwyd fis Gorffennaf 2015)

CDLI25 – Galluogi Datblygiad (a fabwysiadwyd ym mis Mawrth 2015)

CDLI26 - Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Llanelian (a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2017)

CDLI29 - Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Canol Tref Bae Colwyn (a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2017)

CDLI42 - Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd (a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2018).

Un mater o bryder a godwyd yn ystod pob Adolygiad Monitro Blyneddol oedd yn ymwneud â chynhyrchu a mabwysiadu'r Cynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth sy'n weddill o fewn y terfyn amser '24 mis ers mabwysiadu', gan fod y dyddiad cau wedi pasio. Gan ei bod yn debygol y bydd rhai o'r Ardaloedd Cadwraethol yn destun adolygiad, mae'n bosib na fydd angen llunio Canllawiau Cynllunio Atodol Cynllun Rheoli ar gyfer pob un o'r ardaloedd cadwraethol sy'n weddill. Yn hytrach mae'n bosib mai'r dull yn y dyfodol fydd i flaenoriaethu'r Cynlluniau Rheoli ar sail angen / cyflwr presennol yr Ardal Gadwraeth. Bydd y CDLIN yn amlinellu'r dull hwn ar gyfer y dyfodol.

6. Sail Dystiolaeth CDLI wedi'i Ddiweddarau

6.1 Papur Cefndir Dynodiadau Treftadaeth

Dogfen dechnegol yw'r Papur Cefndir hwn sy'n amlygu'r holl ddynodiadau treftadaeth o fewn ardal awdurdod cynllunio lleol Conwy, gan gynnwys y nifer o Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Tirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi, Henebion Rhestredig a dynodiadau Treftadaeth y Byd. Caiff cofnodion o'r asedau treftadaeth hyn eu gweinyddu gan Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru a gellir eu gweld ar wefan Archwilio: https://www.archwilio.org.uk/arch/index_cym.html

6.2 Papur Cefndir Asedau Hanesyddol o Bwysigrwydd Lleol

Mae'r Papur Cefndir hwn yn archwilio'r polisi a'r dull presennol o ran dynodi Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol ac yn adnabod unrhyw broblemau gyda dulliau presennol, gan gynnig datrysiadau ar gyfer newid.

7. Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae gwaith ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi dechrau. Bydd y polisiâu ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol yn y CDLIN yn ystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn amlinellu'r dull arfaethedig ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLIN, gan ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol i sicrhau ei fod yn cwrdd ag amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r AC/AAS yn broses bwysig o ran adnabod meysydd o newid a

mesurau lliniaru i sicrhau fod y CDLIN yn gynaliadwy ac yn cydymffurfio gyda Deddf Cynllunio (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae adroddiad cwmpasu'r AC/AAS yn gofyn nifer o gwestiynau i sicrhau fod gan y polisïau newydd a'r safleoedd ffocws cynaliadwy. Ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol mae'r cwestiynau fel a ganlyn:

A fydd y CDLIN yn:

- Cynyddu argaeledd a hygyrchedd gweithgareddau/lleoliadau diwylliant, hamdden ac adloniant?
- Diogelu, amddiffyn a hybu cywirdeb, nodweddion a lleoliad asedau treftadaeth?
- Diogelu a hybu rhinweddau ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol?
- Hybu'r broses sensitif o ail ddefnyddio adeiladau hanesyddol neu adeiladau o bwys diwylliannol?
- Cadw a, lle bo'n briodol, hybu adnoddau archeolegol pwysig?

Bydd y polisïau yn cael eu hadolygu yn unol â'r egwyddorion arweiniol hyn i sicrhau fod y CDLIN mor gynaliadwy â phosibl.

8. Polisïau a Chynigion Defnydd Tir Posibl

Sylwer: Bydd yr adran hon yn cael ei datblygu ymhellach wrth i adolygiad y CDLI fynd yn ei flaen.

CTH/1 – Mae hwn yn bolisi strategol trosfwaol a allai fod angen adolygiad yn ddibynnol ar statws y polisïau dilynol.

CTH/2 – Mae yna angen i ystyried a oes gofyniad ar gyfer y polisi hwn neu a yw'n ailadrodd yr hyn gaiff ei gynnwys yn y canllawiau cenedlaethol. Mae wedi dod i'r amlwg yn nhermau lleoliad asedau hanesyddol, mae CTH/2 yn rhoi mwy o amddiffyniad – h.y. dylai datblygiadau ddiogelu neu lle bo'n briodol hybu'r lleoliad. Nid yw'r canllawiau cynllunio cenedlaethol yn mynnu hyn, ond mae'n annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud eu penderfyniad eu hunain ar yr effaith o fewn lleoliad ased hanesyddol, tra'n ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad gan Cadw ac ymgynghoreion eraill (TAN 24).

Yn nhermau'r Ardaloedd Cadwraethol, dylai swyddogion a phartïon eraill o ddiddordeb nodi mai'r dull lleol sydd wedi bod o ran diogelu Ardaloedd Cadwraethol yw i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol cyffredinol yn ymwneud ag Ardal Gadwraeth (lle'r ymdrinnir â themâu sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o Ardaloedd Cadwraethol) a Chynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth unigol sy'n benodol i'r Ardal Gadwraeth dan sylw. Pe byddai CTH/2 yn cael ei dynnu'n llwyr o'r cynllun, ni fyddai yna elfen bolisi CDLI a fyddai'n cysylltu â'r Canllawiau Cynlluniau Atodol.

CTH/3 - Bydd y polisi a'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n cyd-fynd yn cael eu hadolygu i roi eglurder a symleiddio'r broses ar gyfer adnabod a chynnwys Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol ar 'restr leol'.

CTH/4 – Mae yna angen i ystyried a oes gofyniad ar gyfer y polisi hwn neu a yw'n ailadrodd yr hyn gaiff ei gynnwys yn y canllawiau cenedlaethol. (PCC paragraffau **6.5.29 a 6.5.30** ar Alluogi Datblygiad). I'w drafod gan yr is grŵp CDLI Amgylchedd Hanesyddol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Polisiâu eraill – Yn dibynnu ar y sail dystiolaeth sy'n datblygu, fe allai fod yna angen am bolisiâu newydd yn y bennod hon. Bydd hyn hefyd yn cael ei drafod gan yr Is Grŵp CDLI Amgylchedd Hanesyddol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

9. Angen Sail Dystiolaeth bellach

Bydd yr adran hon yn cael ei datblygu ymhellach wrth i adolygiad y CDLI fynd yn ei flaen.

10. Casgliad

Mae'r Papur Testun Amgylchedd Hanesyddol hwn yn ceisio sefydlu'r materion allweddol i fynd i'r afael â nhw a'r dystiolaeth sydd ei hangen yn gynnwys ym mhroses y CDLIN ond gan y bydd y Cynllun yn cymryd o leiaf dair blynedd cyn ei fabwysiadu fe all materion a thystiolaeth newydd godi. Wedi ei seilio ar y dystiolaeth bresennol sydd ar gael ystyrir y byddai'r dull arfaethedig ar gyfer polisiâu newydd a diwygiedig yn darparu sail fwy cadarn i hybu a diogelu asedau hanesyddol yn y dyfodol. Bydd is grŵp CDLIN Amgylchedd Hanesyddol yn adolygu'r sail dystiolaeth yn rheolaidd i adnabod newidiadau strategol allweddol i'r amcanion polisi a thystiolaeth ac yna argymhell diweddariadau i bapurau cefndir a'r Papur Testun hwn.

Atodiad 1 – Polisiâu CDLI presennol

POLISI STRATEGOL CTH/1 – TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddiogelu a, lle bo'n briodol, gwella'i asedau diwylliannol a threftadol. Cyflawnir hyn drwy:

- a) Sicrhau nad yw lleoliad datblygiadau newydd ar safleoedd a neilltuwyd yn ogystal â hap-safleoedd yn Ardal y Cynllun yn cael effaith niweidiol sylweddol ar asedau treftadaeth yn unol â Pholisiâu CTH/2 – 'Datblygiadau'n Effeithio ar Asedau Treftadaeth', DP/3 – 'Hybu Ansawdd Dylunio a Gostwng Trosedd' a DP/6 – 'Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol';
- b) Cydnabod a pharchu gwerth a chymeriad asedau treftadaeth yn Ardal y Cynllun a chyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol i roi cyfarwyddyd ynghylch ceisiadau datblygu;
- c) Ceisio cadw a, lle bo'n briodol, gwella ardaloedd cadwraeth, Safle Treftadaeth y Byd yng Nghonwy, tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol, adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd pensaernïol yn unol â Pholisiâu DP/6;
- d) Diogelu adeiladau ac adeileddau o bwysigrwydd lleol yn unol â Pholisi CTH/3 – 'Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol';
- e) Gwella asedau treftadol drwy gynlluniau treftadaeth ac adfywio;
- f) Cynnal a sicrhau dyfodol asedau treftadaeth drwy ganiatáu datblygiadau galluogol priodol yn unig yn unol â Pholisi CTH/4 – 'Galluogi Datblygu';
- g) Sicrhau bod datblygu yn gydnaws â dichonadwyedd y Gymraeg dros y tymor hir yn unol â Pholisi CTH/5 – 'Yr Iaith Gymraeg'.

POLISI CTH/2 – DATBLYGU SY'N EFFEITHIO AR ASEDAU TREFTADOL

Bydd ceisiadau datblygu sy'n effeithio ar ased treftadol a restrir isod (af) a/neu ei leoliad, yn cadw neu'n gwella'r ased hwnnw os yw'n briodol. Bydd ceisiadau datblygu'n cael eu hystyried yn unol â Pholisi DP/6 lle bo'n berthnasol, a Polisi DP/3.

- a) Ardaloedd Cadwraeth;
- b) Safle Treftadaeth y Byd yng Nghonwy;
- c) Tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol;
- d) Adeiladau Rhestredig;
- e) Henebion Cofrestredig;
- f) Safleoedd o bwysigrwydd archeolegol.

POLISI CTH/3 – ADEILADAU AC ADEILEDDAU O BWYSIGRWYDD LLEOL

Ni fydd ceisiadau datblygu sy'n effeithio ar adeiladau neu adeileddau sy'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at gymeriad a diddordeb yr ardal leol ond yn cael eu caniatáu os na fydd ymddangosiad unigryw, hygrededd pensaernïol na lleoliad yr adeilad yn cael eu niweidio'n sylweddol.

POLISI CTH/4 – HWYLUSO DATBLYGU

1. Byddwn ond yn caniatáu hwyluso datblygu sy'n ceisio sicrhau dyfodol ac/ neu ddefnydd arall addas i adeilad rhestredig neu adeilad sy'n gwneud cyfraniad positif sylweddol i gymeriad ardal gadwraeth, tirwedd hanesyddol neu barciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig os yw'r meini prawf canlynol wedi eu diwallu i gyd:
 - a) Ni fydd yn achosi niwed sylweddol i werthoedd treftadaeth yr ased hanesyddol neu ei leoliad; a
 - b) Mae'n osgoi darnio niweidiol o reolaeth yr ased hanesyddol; a
 - c) Bydd yn sicrhau dyfodol tymor hir yr ased hanesyddol a, lle bo'n berthnasol, i barhau i'w ddefnyddio ar gyfer diben cydymdeimladol, a
 - d) Mae angen datrys problemau sy'n deillio o amgylchiadau'r perchennog presennol, neu'r pris prynu a dalwyd; a
 - e) Nid oes cymhorthdal digonol ar gael o unrhyw ffynhonnell arall; a
 - f) Dangosir mai'r swm ar gyfer galluogi'r datblygiad yw'r lleiafswm sydd ei angen i sicrhau dyfodol yr ased hanesyddol, a bod ei ffurf yn lleihau'r niwed i fuddiannau cyhoeddus eraill;
 - g) Mae'r budd cyhoeddus o sicrhau dyfodol yr ased hanesyddol drwy hwyluso datblygiad galluogi o'r fath yn fwy na'r anfanteision o dorri polisiau cyhoeddus eraill.

2. Pe bai'r Cyngor yn penderfynu bod cynllun o hwyluso datblygu yn diwallu'r holl feini prawf uchod, dylid wedyn ond rhoi caniatâd cynllunio os:
 - a) Mae effaith y datblygiad yn cael ei ddiffinio'n fanwl gywir ar y cychwyn, fel arfer drwy rhoi caniatâd cynllunio llawn, yn hytrach nag amlinellol;
 - b) Mae cyflawni'r amcan treftadaeth wedi'i gysylltu'n gadarn a gorfodol â hwyluso datblygu;
 - c) Mae'r lle dan sylw wedi cael ei drwsio i safon y cytunwyd arno, neu bo'r arian i wneud hynny ar gael, mor gynnar ag y bo modd yn ystod hwyluso'r datblygiad, yn ddelfrydol o'r cychwyn cyntaf ac yn sicr cyn cwblhau neu breswyliaeth; a
 - d) Mae'r Cyngor yn monitro gweithrediad, ac os oes angen yn gweithredu ar unwaith i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn cael eu cyflawni.